**Cofnodion drafft cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher, 19 Mawrth 2025, am 6.30pm yn hybrid.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr: Jan Tomlinson, Pauline Edwards, Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Gaynor Morgan-Rees, Philip Stevens, Andrew Hine, Sioned Garrod, Sylvia Jennings, Matthew Jones, Simon Harding a Robert Davies.

**Zoom:** Y Cynghorydd Lara Pritchard

***Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jan Tomlinson, bawb i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.***

**158 Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**159 Datgan buddiant personol / buddiant sy'n rhagfarnu**
Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu yn unrhyw eitem o fusnes i'w hystyried yn y cyfarfod: **Dim**

**160 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd nos Fercher, 19 Chwefror 2025 (rhan 1) –** Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion.

**161** ***Busnes brys o dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972:*** **Nodwyd**

Mae Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu ystyried busnes brys yng nghyfarfodydd y cyngor neu ei bwyllgorau. Gall hyn ddigwydd pan fo cadeirydd y cyfarfod o'r farn fod yr eitem yn un frys oherwydd amgylchiadau arbennig. Rhaid cofnodi'r rheswm am y brys yng nghofnodion y cyfarfod.

**161.1** Cynigiodd y Cynghorydd Matthew Jones y dylid cael eitem ar agenda'r Cyngor llawn nesaf gan Jo Davies (Cymhorthydd Dinesig, Digwyddiadau a Phrosiectau) i roi diweddariad i'r Cyngor Tref am y prosiectau byw. Cytunodd y Cyngor Tref ar hyn.

**161.2** Cytunwyd gan y Cyngor Tref y dylid ystyried cyllid a/neu grantiau fel mater o frys a'u sicrhau lle bo angen er mwyn cynnal unrhyw offer a/neu'r tir yng Nghae Hywel pan gyflwynir gwelliannau yn y dyfodol.

**162 Materion yn codi**

**162.1 Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Cae Hywel 24.02.2025:**

**162.1.1** Cadarnhaodd Jo Davies ei bod wedi cymryd rhan mewn arolwg o ddrws i ddrws i drigolion, gyda'r adborth yn gadarnhaol iawn a llawer o bobl yn awyddus i gael gwybod rhagor ac yn rhannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei weld yno. Gan ei bod yn hanner tymor yn ystod yr ymgynghoriad cafodd Jo gyfle i sgwrsio ag oedolion a phlant i gael eu barn a'u syniadau am sawl peth, yn cynnwys y prosiect Campfa Awyr Agored. Roedd cynrychiolwyr o Hamdden Sir Ddinbych, y Gwasanaethau Ieuenctid a'r Ceidwaid Chwarae yn bresennol hefyd a dau berson ifanc o'r prosiect trac pwmp 'Bumps and Jumps', yn cynorthwyo i gael adborth gan y gymuned.

**162.1.2** Cadarnhaodd y Cynghorydd Pauline Edwards y gellir defnyddio'r cynllun symiau cymudol mannau hamdden awyr agored i dirlunio man awyr agored newydd neu i wella'r ddarpariaeth sy'n

bodoli eisoes, a thrwy hynny gynyddu'r defnydd. Fodd bynnag, ni all y cynllun gyllido costau cynnal a chadw unrhyw offer neu'r tir. Felly, mae angen sicrhau grantiau eraill i gynorthwyo i ariannu gwaith cynnal a chadw'r offer a/neu tir i sicrhau diogelwch.

**162.2 Cais gan Grŵp Cynefin:** Gohiriwyd tan y gyfarfod nesaf y Cyngor llawn.

**163 Gohebiaeth a dderbyniwyd:**

**163.1** Penderfyniadau terfynol Adolygiad y Senedd – Nodwyd
**163.2** Adroddiad y Senedd ar Rôl, Llywodraethiant ac Atebolrwydd y sector Cynghorau Tref a Chymuned – Nodwyd
**163.3** Cynllun Troseddau Heddlu Gogledd Cymru 2025-28 – Nodwyd. Cytunodd y Cyngor Tref ei bod wedi bod yn bleser gweld Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cerdded o gwmpas yn Ninbych, gan roi ymdeimlad o hyder i'r gymuned leol.
**163.4** Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025 – Nodwyd
**163.5** Neges e-bost gan Dinbych yn ei Blodau ynghylch prydlesu potiau blodau yn 2025 – Nodwyd. Cytunodd y Cyngor Tref ei fod yn dymuno cefnogi Dinbych yn ei Blodau fel yn y blynyddoedd blaenorol drwy brydlesu'r potiau blodau eto ar gyfer 2025
**163.6** Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agosach â Chynghorau Tref a Chymuned – Nodwyd
**163.7** Adolygiadau y terfyn cyflymder 20 milltir yr awr gan Gyngor Sir Ddinbych – Nodwyd
**163.8** Neges e-bost gan R Williams ynghylch cais cynllunio 01/2025/0052/HH – Nodwyd – I'w drafod yn ystod yr eitemau Cynllunio.

**164 Cyllid -**

**164.1 Adroddiadau cysoniadau bancio – mis Chwefror 2025 – Gohiriwyd**

**164.2 Rhestr y taliadau a wnaed – mis Chwefror 2025 – Nodwyd**

| Rhif yr eitem | Dyddiad | Rhif y siec | Taliad i | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| **164.2.1** | 05.02.2025 | 008477, 008478 a 008479 | Jones & Graham | Cyflogau mis Chwefror | £6224.96 |
| **164.2.2** | 10.02.2025 | 008480 | Jones & Graham | Gwaith gweinyddol o ran cyflogau 01/10 – 31/12 | £77.40 |
| **164.2.3** | 10.02.2025 | 008481 | Catalyst | Copi wrth gefn mis Ionawr | £4.15 |
| **164.2.4** | 10.02.2025 | 008482 | P Liversidge | Casglu sbwriel yng Ngardd Dr EP | £15.00 |
| **164.2.5** | 10.02.2025 | 008483 | S Williams | Cyfieithu mis Rhagfyr | £131.66 |
| **164.2.6** | 10.02.2025 | 008484 | Catalyst | Ffi band eang mis Chwefror | £52.80 |
| **164.2.7** | 10.02.2025 | 008485 | Y Cynghorydd J Tomlinson | Det 45 2024/25 | £400.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **164.2.8** | 10.02.2025 | 008486 | Shoreline Removals Ltd | Malurio papurau 08.01.2025 | £93.60 |
| **164.2.9** | 10.02.2025 | 008487 | Chris Grier | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.10** | 10.02.2025 | 008488 | Julie Grier | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.11** | 10.02.2025 | 008489 | Paul Evans | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.12** | 10.02.2025 | 008490 | Toni Vitti | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.13** | 10.02.2025 | 008491 | Morgan Ditchburn | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.14** | 10.02.2025 | 008492 | Gareth Evans | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.15** | 10.02.2025 | 008493 | Wendy Grey-Lloyd | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.16** | 10.02.2025 | 008494 | Clwyd Wynne | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.17** | 10.02.2025 | 008495 | Cymdeithas Hanesyddol Caerwys | Cyfraniad darlith Treftadaeth | £50.00 |
| **164.2.18** | 20.02.2025 | 008496 | Bodfari Environmental | Gardd Dr EP (mis Hydref – mis Rhagfyr 2024) | £1018.20 |
| **164.2.19** | 20.02.2025 | 008497 | Hampshire Flag Co Ltd | Baner Dydd Gŵyl Dewi | £513.00 |
| **164.2.20** | 20.02.2025 | 008498 | Safety Focus Ltd | Darpariaethau Iechyd a Diogelwch | £600.00 |
| | | | | **Cyfanswm** | **£9580.77** |

**164.3 Taliadau angen eu hawdurdodi: cytunwyd ar a nodwyd y taliadau isod gan y Cynghorwyr Tref:**

| Rhif yr eitem | Dyddiad | Rhif y siec | Siec yn daladwy i | Disgrifiad y taliad | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| **164.3.1** | 24.03.2025 | 008521 | Bodfari Environmental | Cynnal a chadw chwarterol Gardd Dr EP, mis Ionawr – mis Mawrth 2025 | £1,018.20 |
| **164.3.2** | 24.03.2025 | 008522 | Cyngor Sir Ddinbych | Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Tiroedd 2024/2025 | £1,742.22 |
| **164.3.3** | 24.03.2025 | 008523 | Cyngor Sir Ddinbych | Goleuadau’r Nadolig 2024 | £14,841.60 |

**164.3.4** Cynigiwyd gan y Cynghorydd Philip Stevens na ddylid adnewyddu’r tanysgrifiad i Un Llais Cymru. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Andrew Hine.

Cytunodd y Cyngor Tref na fyddai'r tanysgrifiad i Un Llais Cymru'n cael ei adnewyddu, gyda 12 pleidlais o blaid y cynnig, un yn erbyn ac un bleidlais wedi'i hatall. Felly cytunwyd a derbyniwyd na fyddai'r tanysgrifiad yn cael ei adnewyddu ar gyfer 2025-2026.

**164.4 Rhestr y derbyniadau ym mis Chwefror 2025 – Dim**

**164.5 Cymorth grant a awdurdodwyd gan y Cynghorwyr Tref: Cytunwyd ar a nodwyd y cymorth grant.**

| Rhif yr eitem | Cod | Rhif y siec | Siec yn daladwy i | Swm |
|---|---|---|---|---|
| **164.5.1** | A137 | 008524 | SSAFA | £100.00 |
| **164.5.2** | A137 | 008525 | Celfyddydau Blodeuol Dinbych | £100.00 |

**164.5.3 Amgueddfa Dinbych –**

**164.5.3.1** Cynigiwyd gan y Cynghorydd Matthew Jones dalu'r swm o £1,296.00 (80% o'r cyfanswm) drwy gymorth grant i Amgueddfa Dinbych.

**164.5.3.2** Cynigiodd y Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle welliant, sef yn hytrach na thalu 80% o'r cyfanswm drwy gymorth grant, y dylai'r Cyngor Tref dalu'r cost llawn o £1,620.00 i gael gwasanaeth cwmni symud nwyddau lleol proffesiynol. Bydd hyn dros tua tridiau i gynorthwyo'r Amgueddfa i symud eitemau mawr, trwm, prin, gwerthfawr a bregus o'r lleoliad cyfredol yn yr hen lys ar Ffordd Goch, Dinbych i adeilad newydd yr amgueddfa, sef lleoliad yr hen Farchnad Fenyn ar Lôn y Goron, Dinbych. Nodwyd y gallai'r Cyngor Tref hawlio'r TAW yn ôl.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Pauline Edwards a chytunwyd ar hyn a'i dderbyn gan yr holl Gynghorwyr Tref.

**164.6 Cadarnhau taliadau a dderbyniwyd – Nodwyd**

**164.6.1** Theatr Twm o'r Nant
**164.6.2** Menter Iaith
**164.6.3** Côr Meibion Dinbych
**164.6.4** Theatr Bara Caws

**164.7 Sut y defnyddiwyd taliadau grant (adolygiad chwe mis) – Dim**

**164 Dyfynbrisiau**

**164.1** **Catalyst – Uwchraddio i Windows 11 –** Gohiriwyd
**164.2** **Fattorini – Bathodyn Cyn Faer** – Cytunodd y Cyngor Tref y dylid cysylltu â chwmni Fattorini i ofyn am fanylion am gyfraddau disgownt os prynir nifer lluosog o fathodynnau ar yr un pryd cyn gwneud penderfyniad.

**165 Cynllunio:**

**165.1** 01/2025/0038PF
Denbigh Carpets & Beds, Uned 3a Ystad Fasnachu'r Dyffryn, Ffordd y Rhyl, Dinbych.
Newid defnydd o ardal arddangos carped i fwyty/tecawê.

***Gofynnodd y Cyngor Tref am gyfeirio at ohebiaeth flaenorol.***

…………………………………………………………………………………………………………………

**165.2** 01/2024/1588PF
Gwaenynog Bach, Dinbych
Adeiladu wal i ffurfio clamp silwair, ffurfio llain galed a gwaith cysylltiedig.

***Dim gwrthwynebiad***

…………………………………………………………………………………………………………………

**165.3** 01/2025/0058/PF
Maes y Clwb, Ffordd Ystrad, Dinbych
Gosod hysbysfwrdd sgorio LED electronig di-wifr, parhau'r fynediad ac arwydd mynedfa.

***Dim gwrthwynebiad***

…………………………………………………………………………………………………………………

**165.4** 01/2025/0041/Caniatâd Adeilad Rhestredig
27-29 Y Stryd Fawr, Dinbych
Addasiadau mewnol i gynllun gosod y fflat yn y cefn, y bar te ar y llawr cyntaf a'r grisiau ar y llawr gwaelod (diwygiad Caniatâd Adeilad Rhestredig).

***Dim gwrthwynebiad***

…………………………………………………………………………………………………………………

**165.5** 01/2025/0052/HH
66 Trewen, Dinbych
Adeiladu estyniad deulawr ar y blaen a'r ochr ac estyniad unllawr yn y cefn.

***Gofynnodd y Cyngor Tref i ohebiaeth a dderbyniwyd yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn gael ei ystyried.***

………………………………………………………………………………………………………………..

**166 Diweddariad gan y Maer –**

**166.1** Cadarnhaodd y Maer, y Cynghorydd Jan Tomlinson, ei phresenoldeb mewn cyfarfodydd gyda Catalyst, sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad gan Gyngor Sir Ddinbych a Chynlluniau Creu Lleoedd Dinbych.

**167 Cyfarfodydd eraill y bu cynghorwyr tref yn bresennol ynddynt.**

**167.1** Roedd y Cynghorwyr Roy Tickle a Gaynor Wood-Tickle wedi bod yng Nghyfarfod Blynyddol a chyfarfod chwarterol y Gymdeithas Trefi Caerog, sy'n mynd yn dda gyda nifer o ddigwyddiadau yn yr arfer yn 2025 i gadw'r cyfeillgarwch a'r gefnogaeth rhwng y Trefi Caerog yn gadarn.

**167.2** Gwnaeth y Cynghorydd Andrew Hine barhau i fynychu a chefnogi cyfarfodydd Darganfod Dinbych, gyda'r prosiect yn gwneud cynnydd a dyddiad mynd yn 'fyw' i'w gadarnhau'n fuan.

**167.3** Bu'r Cynghorydd Philip Stevens mewn trafodaethau ac mae'n parhau i drafod a chefnogi'r syniad o gynnal diwrnodau marchnad yn Ninbych.

**168 Diweddariad gan y Cynghorydd Sir, y Cynghorydd Pauline Edwards –**

**168.1** Trafododd y Cynghorydd Pauline Edwards yr addasiadau mewnol arfaethedig i safle Caledfryn ar Ffordd y Ffair gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a fydd yn dechrau'n fuan, gyda dyddiad dechrau i'w gadarnhau.

**169 Diwygio cyfarfodydd y Cyngor Tref i dri bob mis (Cyngor llawn, Cynllunio, yr Amgylchedd a Chyllid):**
Cytunwyd gan y Cyngor llawn y byddai cyfarfod y Cyngor llawn yn cael ei gynnal bob mis fel arfer, a fydd yn parhau i gynnwys eitemau cynllunio. Fodd bynnag, bydd cyfarfod Cyllid yn cael ei gynnal ar wahân yn fisol.

**170 Polisïau – Derbyn y polisïau a ddosbarthwyd at ddibenion archwilio 2024/25 –** Gohiriwyd nes cael cyngor gan y Tîm Sicrwydd Archwilio

**170.1** Y Rheoliadau Ariannol
**170.2** Yr Asesiadau Risg
**170.3** Y Gofrestr Asedau
**170.4** Y Rheolau Sefydlog
**170.5** Y ffurflen a'r canllawiau Cymorth Grant
**170.6** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**171 Polisïau: Adolygu'r polisïau a ddosbarthwyd ar gyfer 2025/26 a chadarnhau unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol** - Gohiriwyd nes cael cyngor gan y Tîm Sicrwydd Archwilio

**171.1** Y Rheoliadau Ariannol
**171.2** Yr Asesiadau Risg
**171.3** Y Gofrestr Asedau
**171.4** Y Rheolau Sefydlog
**171.5** Y ffurflen a'r canllawiau Cymorth Grant
**171.6** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**172 15 Penodi Maer 2025/26**

Cynigiodd y Cynghorydd Philip Stevens benodi'r Cynghorydd Jan Tomlinson yn Faer am y flwyddyn ddinesig 2025-2026. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sylvia Jennings ac roedd pleidlais y Cyngor Tref yn unfrydol heb unrhyw gynigion eraill.

**173 Penodi Dirprwy Faer 2025/26**

Cynigiodd y Cynghorydd Matthew Jones benodi'r Cynghorydd Pauline Edwards yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn ddinesig 2025-2026. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sylvia Jennings ac roedd pleidlais y Cyngor Tref yn unfrydol heb unrhyw gynigion eraill.

**174 Dyddiadau parcio am ddim yn 2025 – dau ddiwrnod yn weddill**

Cadarnhawyd dynodi tri dyddiad ar gyfer diwrnodau parcio am ddim yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor llawn ar 19.02.2025, sef:
20 Medi – Drysau Agored
4 Hydref – Gŵyl Eirin Dinbych

30 Tachwedd – Digwyddiad goleuo'r Goleuadau Nadolig.
Gofynnodd y Cyngor Tref i Jo Davies gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ganfod, pe na bai'r ddau ddiwrnod sy'n weddill yn cael eu dynodi i ddyddiadau yn 2025, a oes modd eu cario trosodd i 2026 ai peidio?

***Gadawodd y Cynghorydd Matthew Jones y cyfarfod am 19:45***
***Dychwelodd y Cynghorydd Matthew Jones i'r cyfarfod am 19:50***

**175 Adolygu'r rhestrau aelodau cyfarfodydd mewnol ac allanol. (Pwyllgorau/Is-bwyllgorau a Gweithgorau a phenodi aelodau i gynrychioli mewn cyfarfodydd sefydliadau eraill yn 2025/26) –** Diweddarwyd

***Gadawodd y Cynghorydd Andrew Hine y cyfarfod am 19:58***
***Dychwelodd y Cynghorydd Andrew Hine i'r cyfarfod am 20:03***

**176 Cadarnhau cofnodion rhan 2 – cyfarfod y Cyngor llawn, 19 Chwefror 2025 – cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion.**

**177 Jo Davies – Diweddariad ynghylch yr arfarniad – Gohiriwyd**

**178 Diweddariad ynghylch adeilad yr Amgueddfa – yn parhau – Nodwyd.**

***Oherwydd natur gyfrinachol busnes yr eitem agenda hon, bwriadir cyflwyno cynnig dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 (3), y dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod yr eitem agenda hon.***

**Copi i bob Cynghorydd Tref**

Cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod am 20:18

Llofnod ……………………………………

Dyddiad …………………………………